



RHIF CYF CYFRAN'IAD:

CYMDEITHAS TAFARN SINC

FFURFLEN GAIS CYFRANDDALIADAU SWYDDOGOL

Mae Cymdeithas Tafarn Sinc yn Gymdeithas er Budd Cymunedol. Rydym eisoes wedi codi'r cyfalaf angenrheidiol i brynu Tafarn Sinc ac wedi cwblhau blwyddyn o fasnachu llwyddiannus. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â'r fenter gymunedol fel ein bod yn cyrraedd ein nod o **1876 o gyfranddaliadau** fydd yn ein galluogi i gyflawni gwaith uwchraddio angenrheidiol.

CWBLHEWCH YR ISOD GAN DDEFNYDDIO INC DU A PHRIF LYTHRENAU

Enw llawn:

Enw gwarcheidwaid os ydych dan 16 oed:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif ffôn cartref:

Rhif ffôn symudol ar gyfer gwybodaeth trwy neges destun:

E-bost:

- Ticiwch i gadarnhau eich bod yn hapus i dderbyn pob gohebiaeth yn y dyfodol drwy e-bost (nodwch eich cyfeiriad E-bost)
- Ticiwch i gadarnhau eich bod chi (neu fel gwarcheidwad) dros 16 oed a'ch bod yn derbyn y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â buddsoddi yng nghyfranddaliadau'r gymdeithas a nodir yn y ddogfen hon

Buddsoddiad o £200 y cyfranddaliad - swm mewn geiriau:

(Mae'n rhaid i'r cyfanswm fod yn llai na £20,000):

Llofnod

Dyddiad

SIEC: Cymdeithas Tafarn Sinc

AR-LEIN: Banc Lloyds Cod Didoli: 30- 97- 77 Rhif Cyfrif: 21689968

Defnyddiwch y cyfeirnod: TafSinc> EnwOlafEnwCyntaf <

Dychwelwch drwy'r post i:

Cynnig Cyfranddaliadau Tafarn Sinc d/o PLANED,
Yr Hen Ysgol, Arberth, SA67 7DU

E-bost:

croeso@tafarnsinc.cymru

Mae gwybodaeth ychwanegol a chopïau o'r Rheolau a'r Rheoliadau ar gael ar y wefan neu yn swyddfa PLANED. Gweler www.tafarnsinc.cymru am gyfarwyddiadau.



Cynnig Cyfranddaliadau Cymdeithas Tafarn Sinc

Cefnogwch tafarn traddodiadol Cymreig cefn gwlad sy'n llawn hiraeth ac atgofion yng nghalon y Preselau

Tafarn Sinc yw'r tafarn sydd
Yn aelwyd pob ymwelydd

Fe fu ein cynnig dechreuol o gyfranddaliadau a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2017 yn llwyddiannus. Codwyd y cyfalaf angenrheidiol i brynu Tafarn Sinc. Ond ni lwyddwyd i gyrraedd y nod o ddenu 1876 o gyfranddaliadau - rhif a ddewiswyd i ddynodi'r flwyddyn y cafodd y Precelly Hotel, fel roedd wedi'i enwi ar y pryd, ei godi. Fe gydiodd yr ymgyrch yn y dychymyg. Fe lwyddwyd i ddenu buddsoddwyr o bob rhan o'r byd. Rydym nawr yn parhau â'r ymgyrch gyfranddaliadau tan 2020 er mwyn ehangu'r berchnogaeth gymunedol a darparu cyfalaf pellach ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan o'r prosiect cymunedol unigryw hwn.

Y cynnig i brynu cyfranddaliadau

- Mae angen 668 o gyfranddaliadau pellach. Y lleiafswm buddsoddiad yw £200 fesul unigolyn a'r mwyafswm buddsoddiad yw £20,000 fesul unigolyn.
- Byddwch yn buddsoddi eich arian mewn Cymdeithas Budd Cymunedol; Cymdeithas Tafarn Sinc sydd wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) (Rhif cofrestredig 7691)

- Bydd gan bob cyfranddalwr un bleidlais yn unig yng ngweithdrefnau Cymdeithas Tafarn Sinc waeth faint o gyfranddaliadau fydd yn eiddo iddynt.
- Mae Tafarn Sinc wedi hen sefydlu ei hun yn dafarn cymunedol gydag awyrgylch nodedig Gymreig. Fe fu'r flwyddyn gyntaf o fasnachu'n llwyddiannus.
- Bwriad y cynnig hwn yw annog ymwneud pellach â llwyddiant Cymdeithas Tafarn Sinc a chodi arian ychwanegol a fydd yn galluogi:
 - Cyflawni gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar yr adeilad;
 - Parhau i newid ac uwchraddio offer wrth iddyn nhw ddod i ben eu hoes;
 - Gwella cyfleusterau, yn benodol y toiledau; a sicrhau arian wrth gefn

Beth sy'n gwneud Tafarn Sinc mor arbennig?

Mae Tafarn Sinc wedi ei leoli yng nghanol y Preselau, yn ysblander Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Dyma'r tafarn trwyddedig uchaf yn Sir Benfro. Mae'n nythu ym mhentrefan bach gwledig Rhos-y-bwlch yng nghesail Foel Cwm Cerwyn.

Cafodd ei adeiladu yn 1876, pan agorwyd y rheilffordd o Glunderwen i Rhos-y-bwlch, a'r enw a roddwyd iddo oedd '*The Precelly Hotel*'. Hyd heddiw y tu allan i'r dafarn mae yna atgynhyrchiad o blatfform a chaban signalau. Fe glywch yr hwter yn dynodi fod yna drên ar fin cyrraedd . . . i godi'r teithwyr sy'n disgwyl ar y platfform.

Yn 1992 cauwyd y tafarn. Roedd mewn cyflwr gwael. Prynwyd yr adeilad wrth y bragdy gan Brian a Brenda Llewelyn am £18,000. Fe'i adnewyddwyd a'i enwi yn 'Tafarn Sinc Preseli' ar ôl y deunyddiau a ddefnyddiwyd i'w adeiladu sef haearn rhychiog galfanedig.

Mae Tafarn Sinc yn rhan amlwg o fywyd hanesyddol a chymdeithasol yr ardal, ac mae ei lwyddiant heddiw yn ddyledus i'r ffaith ei fod yn adlewyrchu hynodrwydd a nodweddion y Preselau. Mae arwydd ar y bar yn eich annog i gyfarch y staff yn Gymraeg.

Gwrthododd Tafarn Sinc blygu i chwiwiau modern a deil i arddel naws hiraethus. Syllwch ar yr offer amaethyddol. Dyna pam y credwn ei bod yn hanfodol cadw a datblygu'r gem o adeilad coch er lles y gymuned.

Cwestiynau a ofynnir yn gyson ynghyd ag esboniadau.

Beth yw cyfranddaliadau cymunedol?

Does yna ddim diffiniad cyfreithiol ar gyfer cyfranddaliadau cymunedol.

- Mae'r term yn cael ei ddefnyddio yma i gyfeirio at ffurf unigryw o gyfalaf cyfranddaliadau sef cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan (*withdrawable shares*) y gellir eu cynnig yn unig gan gwmnïau cydweithredol neu gymdeithasau budd cymunedol sydd wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).
- Mae cymdeithasau cydweithredol er budd cyffredinol eu haelodau, tra bod cymdeithasau budd cymunedol (CBC) er budd ehangach y gymuned gyfan. Mae Cymdeithas Tafarn Sinc yn gymdeithas er budd cymunedol (CBC).
- Gall y ddau fath o gymdeithas gynnig cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan, ac maen nhw'n gweithredu ar sail egwyddorion tebyg.
- Gallwch dynnu cyfranddaliad allan, yn amodol ar delerau ac amodau'r gymdeithas dan sylw. Mae hyn yn darparu ffordd syml i gael eich arian yn ôl pan fyddwch eisiau gwerthu eich cyfranddaliadau.

- Mae cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan yn wahanol iawn i 'gyfranddaliadau trosglwyddadwy', sef y math o gyfranddaliadau a gyhoeddir fel arfer gan gwmnïau.

Pam ddylwn i brynu cyfranddaliad cymunedol?

Y prif reswm dros brynu cyfranddaliadau cymunedol yw cefnogi amcanion cymdeithasol y fenter dan sylw. Yn wahanol i gyfranddaliadau mewn cwmnïau preifat, sy'n blaenoriaethu creu elw ariannol personol, mae cyfranddaliadau cymunedol yn ddarostyngedig i gyfreithiau sy'n cyfyngu ar fudd ariannol ac yn pwysleisio mantais gymdeithasol. Mae'r canlynol i gyd yn rhesymau posibl dros brynu cyfranddaliadau cymunedol:

- Rydych eisiau gwneud rhywbeth da i'r gymuned yr ydych yn byw neu'n gweithio ynddi
- Rydych am fod yn rhan o sefydliad democrataidd
- Rydych am gael mwy o reolaeth dros ble mae eich arian yn mynd a sut mae'n cael ei ddefnyddio
- Rydych yn chwilio am opsiynau amgen i ddefnyddio eich arian

Pa risgiau sydd yna i Gymdeithas Tafarn Sinc a fedrai effeithio ar fuddsoddiad?

- Problemau annisgwyl gyda strwythur yr adeilad sy'n arwain at gostau ychwanegol

- Gwaith cynnal a chadw neu offer newydd drudfawr yn gostwng elw
- Incwm o redeg Tafarn Sinc yn llai na'r disgwyl
- Nifer o gyfranddalwyr am dynnu eu harian yr un pryd gan greu anawsterau llif arian
- Y Bwrdd yn methu datblygu cynllun olyniaeth effeithiol i ddenu aelodau bwrdd neu is-bwyllgorau
- Y Gymdeithas yn methu codi digon o arian i gwblhau'r datblygiadau tymor hir neu mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau hyn yn rhy uchel

Gwybodaeth Bwysig

- Bydd y Gymdeithas yn cael ei rhedeg er budd y gymuned.
- Ni fydd gwerth eich cyfranddaliadau yn gallu mynd i fyny, ond y nod fydd i dalu llog blynyddol ar y cyfranddaliadau.
- Gall gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw dyledion y gymdeithas yn fwy na gwerth ei hasedau.
- Mae yna risg y gallech golli rhywfaint neu'r holl arian y byddwch wedi ei fuddsoddi yn y cyfranddaliadau hyn.
- Mae hwn yn gynnig heb ei reoleiddio ac ni fyddwch yn gymwys i wneud cais i Gynllun lawndal y Gwasanaethau Ariannol yn achos unrhyw golledion.

- Y bwriad yw talu llog ar gyfranddaliadau, ond mae hyn yn dibynnu ar broffidioldeb y gymdeithas.
 - Bydd cynigion i dalu llog yn cael eu rhoi ger bron yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB), ochr yn ochr â chynigion eraill ar gyfer defnyddio unrhyw elw er budd y gymuned, neu ar gyfer adeiladu cronfeydd wrth gefn er mwyn caniatáu tynnu cyfranddaliadau allan.
 - Mae posib tynnu cyfranddaliadau allan, sy'n golygu y gallwch ofyn am eich arian yn ôl ar unrhyw adeg, ond yn unol â'r Rheolau bydd rhaid i chi roi rhybudd o dri mis o leiaf os ydych eisiau tynnu cyfranddaliadau allan.
 - Bydd y Rheolau hefyd yn datgan bod gan y Bwrdd yr hawl i wrthod eich cais, ac i atal tynnu arian allan, os bydd yn credu na all y Gymdeithas fforddio i ganiatáu tynnu arian allan.
-